CYNGOR TREF RHUTHUN

POLISI GRANTIAU ARIANNOL

Cymeradwywyd ar 17/7/24

Y RHAI SY’N GWNEUD CAIS AM ARIAN

1. Gall grwpiau sydd wedi’u lleoli yn Rhuthun neu grwpiau y bydd eu ceisiadau o fudd i drigolion Rhuthun wneud cais am arian.
2. Ni chaiff unigolion wneud cais am arian.
3. Ni ellir gwneud cais am fwy na £1500.

Y BROSES AR GYFER PENNU GRANTIAU

4. Gall y Cyngor Llawn ystyried pob cais ond gall ddirprwyo’r cyfrifoldeb hwn i bwyllgor.
5. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am arian, a’u cymeradwyo ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod. Bydd hyn yn digwydd yn ystod cyfarfodydd mis Ebrill a mis Hydref. Trwy benderfyniad, gellir trefnu’r cyfarfod hwn yn ystod mis arall cyn belled â’i fod yn un o’r tri mis yn dilyn y mis perthnasol.
6. Yr uchafswm y gellir ei gymeradwyo yw’r swm a gyllidebwyd gan y Cyngor at y diben, wedi’i rannu’n gyfartal rhwng pob un o’r misoedd perthnasol. Ni ddylai’r swm hwn fod yn fwy na £10,000 y flwyddynr.
7. Gall y Cyngor benderfynu mai dim ond rhan o’r swm y gofynnwyd amdano a roddir i unrhyw gais penodol. Ni ddylai’r Cyngor roi mwy na £1500 i unrhyw gais penodol.
8. Dylai Clerc y Dref nodi yn y cofnodion y rhesymau dros gymeradwyo neu wrthod unrhyw gais. Dylai’r Clerc hefyd roi gwybod i’r grŵp dan sylw am y rhesymau hyn. Dylai hefyd ddweud wrth y grŵp bod yn rhaid iddo roi gwybod sut y cafodd y grant ei wario cyn y cyfarfod nesaf at ddibenion ystyried ceisiadau am arian (naill ai ym mis Ebrill neu ym mis Hydref yn ôl eu trefn).

DYDDIADAU CAU AR GYFER YSTYRIED CEISIADAU

9. Yn achos ceisiadau sy’n cael eu hystyried ym mis Ebrill, rhaid i’r rhain gael eu derbyn erbyn diwedd diwrnod olaf mis Mawrth.

10. Yn achos ceisiadau sy'n cael eu trafod ym mis Hydref, rhaid i'r rhain gael eu derbyn erbyn diwedd diwrnod olaf mis Medi.
11. Ystyrir bod ceisiadau a wneir yn electronig wedi'u derbyn yn seiliedig ar y dyddiad y cawsant eu hanfon. Ystyrir bod ceisiadau a wneir drwy'r post wedi'u derbyn yn seiliedig ar y dyddiad postio.
12. Ni fydd y dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau yn newid waeth pryd y cynhelir y cyfarfod dan sylw mewn gwirionedd.

Y GOFYNION I GAIS GAEL EI YSTYRIED

13. Rhaid i bob cais am arian a wneir i'r Cyngor gynnwys: y ffurflen gais (ar gael o'r wefan neu gan Glerc y Dref), cyfrifon blwyddyn flaenorol y grŵp sy'n gwneud y cais (neu os yw'r grŵp yn ei flwyddyn gyntaf o fodolaeth, unrhyw gyfrifon cyfredol), unrhyw ddogfennau cefnogol eraill, a thystiolaeth benodol o sut y cafodd unrhyw geisiadau blaenorol a gymeradwywyd gan y Cyngor eu gwario. Ni chaiff unrhyw geisiadau nad ydynt yn cynnwys yr uchod eu hystyried.
14. Pan dderbynnir ceisiadau ar y ffurf gywir, dylid eu cyfeirio at y cynghorwyr sy'n ystyried ceisiadau o'r fath cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.
15. Pan fydd y ceisiadau wedi'u hanfon at y cynghorwyr, gallant ofyn am ddogfennau cefnogol eraill drwy Glerc y Dref, a fydd yn gofyn i'r grŵp penodol amdanyn nhw os yw o'r farn bod y cais yn un rhesymol, o ystyried gofynion y polisi hwn.
16. Ni all y cynghorwyr ofyn na disgwyl rhagor o ddogfennau cefnogol os oes llai nag wythnos cyn y cyfarfod perthnasol a drefnwyd.

PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR WRTH BENDERFYNU AR GEISIADAU O'R FATH

17. Gwariant y pŵer cyffredinol o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972 fel y'i diwygiwyd fydd y gwariant a ysgwyddwyd oherwydd y ceisiadau hyn.
18. Rôl Clerc y Dref fydd sicrhau bod ceisiadau o'r fath, os cânt eu cymeradwyo, yn cydymffurfio ag adran 137, is-adrannau (1)(a), is-adrannau (1A) i (3) ac is-adrannau (9) a (10).
19. Wrth gymeradwyo cais, rhaid i bob cynghorydd ystyried ei fod fel a ganlyn:

*“... is in the interests of, and will bring direct benefit to, their area or any part of it or all or some of its inhabitants...”*

a:

*“... the direct benefit accruing to their area or any part of it or to all or some of the inhabitants of their area will be commensurate with the expenditure to be incurred.”*

20. Rôl Clerc y Dref fydd sicrhau bod gwariant o’r fath yn cael ei gofnodi ac nad yw gwariant o’r fath yn mynd y tu hwnt i’r gofynion o dan o dan Adran 137 y Ddeddf.

YSTYRIAETHAU YCHWANEGOL I GYNGHORWYR

21. A yw’r sefydliad sy’n gwneud y cais yn cadw at bolisi’r Cyngor Tref o roi statws cyfartal i’r Gymraeg a’r Saesneg ac wedi egluro sut y mae’n bwriadu gwneud hynny.
22. Bod y cais yn cael ei wneud i ariannu prosiect penodol neu agwedd arno. Nid diben y grantiau yw cynorthwyo gyda chostau rhedeg cyffredinol.
23. Dylai’r cynghorwyr drafod y rhesymau dros geisiadau am arian gan yr un grŵp fwy nag unwaith, ac a ellir cyfiawnhau dyfarnu grant eto. Ni ddylai Cynghorwyr, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, roi grantiau i’r grwpiau hynny nad ydynt wedi rhoi gwybod sut y gwariwyd grantiau blaenorol o fewn y cyfyngiadau amser a nodwyd yn y polisi hwn.

RHOI CYHOEDDUSRWYDD I GRANTIAU ARIANNOL

24. Dylid cyhoeddi’r polisi hwn ar wefan y Cyngor a ble bynnag yr ystyria Clerc y Dref yn angenrheidiol.
25. Dylid cyhoeddi’r canllawiau hefyd ar wefan y Cyngor, yn ogystal â’r ffurflen gais ofynnol.
26. Rôl Clerc y Dref fydd drafftio a chyhoeddi’r canllawiau hyn yn ogystal ag unrhyw faterion eraill yn ymwneud â chyhoeddusrwydd o dan y polisi hwn.